# Canllaw i'r Ffioedd ar gyfer Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru

**Mae'r ffioedd hyn yn berthnasol i'r ceisiadau a wnaed o 24 Awst 2020 ymlaen.**

Mae'r ddogfen hon yn seiliedig ar '*Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015*' (fel y'i diwygiwyd)

Dylid talu'r ffi pan gyflwynir y Cais.

Os nad ydych chi'n siŵr o'r ffi berthnasol, holwch eich Awdurdod Cynllunio Lleol (yn Saesneg).

| **Pob Cais Amlinellol** | | |
|---|---|---|
| Arwynebedd y safle | Dim mwy na 2.5 hectar | £460 fesul 0.1 hectar (neu ran o hynny) |
| | Mwy na 2.5 hectar | £11,500 + £120 ychwanegol ar gyfer pob 0.1 hectar (neu ran o hynny) sy'n fwy na 2.5 hectar hyd at uchafswm o £150,000 |

| **Ceisiadau Deiliaid Tai** | | |
|---|---|---|
| Addasiadau/estyniadau i **un annedd**, yn cynnwys gwaith o fewn y ffin | Un annedd (ac eithrio fflatiau) | £230 |

| **Ceisiadau Llawn** (a Chyflwyniadau Cyntaf o ran Materion a Gadwyd yn Ôl) | | |
|---|---|---|
| Addasiadau/estyniadau i **ddwy annedd neu fwy**, yn cynnwys gwaith o fewn y ffin | Dwy annedd neu fwy (neu un fflat neu fwy) | £460 |
| **Anheddau newydd** | Anheddau newydd (dim mwy na 50) | £460 fesul annedd |
| | Anheddau newydd (mwy na 50) | £23,000 + £120 fesul annedd ychwanegol sy'n fwy na 50 hyd at uchafswm ffi o £300,000 |

Parhad ar y dudalen nesaf…

| | | |
|---|---|---|
| **Ceisiadau Llawn** (a Chyflwyniadau Cyntaf o ran Materion a Gadwyd yn Ôl) parhad… | | |
| **Codi adeiladau** (nid anheddau, amaethyddol, tai gwydr, peiriannau nac offer) | | |
| Cynyddu arwynebedd y llawr | Dim cynnydd yn yr arwynebedd llawr gros neu dim mwy na 40m² | £230 |
| | Mwy na 40m² ond dim mwy na 75m² | £460 |
| | Mwy na 75m² | £460 ar gyfer pob 75m² (neu ran o hynny), hyd at uchafswm o £300,000 |
| **Codi adeiladau** (ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth at ddibenion amaethyddol) | | |
| Arwynebedd y safle | Dim mwy na 465m² | £85 |
| | Mwy na 465m² ond dim mwy na 540m² | £460 |
| | Mwy na 540m² | £460 ar gyfer y 540m² cyntaf + £460 ar gyfer pob 75m² (neu ran o hynny) sy’n fwy na 540m² hyd at uchafswm o £300,000 |
| **Codi tai gwydr ar dir a ddefnyddir at ddibenion amaethyddol** | | |
| Arwynebedd y safle | Dim mwy na 465m² | £85 |
| | Mwy na 465m² | £2,600 |
| **Codi/addasu offer a pheiriannau neu osod offer a pheiriannau newydd** | | |
| Arwynebedd y safle | Dim mwy na 5 hectar | £460 ar gyfer pob 0.1 hectar (neu ran o hynny) |
| Arwynebedd y safle | Mwy na 5 hectar | £23,000 + £120 ychwanegol ar gyfer pob 0.1 hectar (neu ran o hynny) sy’n fwy na 5 hectar hyd at uchafswm o £300,000 |

Parhad ar y dudalen nesaf…

| | | |
|---|---|---|
| **Ceisiadau Llawn** (a Chyflwyniadau Cyntaf o ran Materion a Gadwyd yn Ôl) parhad… | | |
| **Ceisiadau ac eithrio ar gyfer Gwaith Adeiladu** | | |
| **Meysydd parcio, ffyrdd gwasanaeth neu fynedfeydd eraill** | At ddefnydd presennol | £230 |
| **Gwastraff** (Defnyddio tir i waredu gwastraff neu ddeunydd gwastraff neu waredu deunydd sy'n weddill ar ôl echdynnu neu storio mwynau) | | |
| Arwynebedd y safle | Dim mwy na 15 hectar | £230 ar gyfer pob 0.1 hectar (neu ran o hynny) |
| | Mwy na 15 hectar | £34,500 + £120 ar gyfer pob 0.1 hectar (neu ran o hynny) sy'n fwy na 15 hectar hyd at uchafswm o £80,000 |
| **Gweithrediadau sy'n gysylltiedig â drilio archwiliol am olew neu nwy naturiol** | | |
| Arwynebedd y safle | Dim mwy na 7.5 hectar | £460 ar gyfer pob 0.1 hectar (neu ran o hynny) |
| | Mwy na 7.5 hectar | £34,500 + £120 ychwanegol ar gyfer pob 0.1 hectar (neu ran o hynny) sy'n fwy na 7.5 hectar hyd at uchafswm o £300,000 |
| **Gweithrediadau eraill (cloddio a gweithio mwynau)** | | |
| Arwynebedd y safle | Dim mwy na 15 hectar | £230 ar gyfer pob 0.1 hectar (neu ran o hynny) |
| | Mwy na 15 hectar | £34,500 + £120 ychwanegol ar gyfer pob 0.1 hectar (neu ran o hynny) sy'n fwy na 15 hectar hyd at uchafswm o £80,000 |
| **Gweithrediadau eraill (nad ydynt yn perthyn i unrhyw un o'r categorïau uchod)** | | |
| Arwynebedd y safle | Unrhyw arwynebedd safle | £230 ar gyfer pob 0.1 hectar (neu ran o hynny), hyd at uchafswm o £300,000 |

Parhad ar y dudalen nesaf...

| **Tystysgrifau Datblygiad Cyfreithlon (TDC)** | |
|---|---|
| Defnydd Presennol – torri amod cynllunio | Fel y Ffi Lawn |
| Defnydd Presennol – cyfreithlon i beidio â chydymffurfio ag amod penodol | £230 |
| Defnydd Arfaethedig | Hanner y ffi gynllunio arferol. |

| **Cymeradwyaeth Ymlaen Llaw** | |
|---|---|
| Adeiladau a gweithrediadau Amaethyddol a Choedwigaeth neu ddymchwel adeiladau | £100 |
| Gweithredwyr Systemau Codau Telathrebu | £460 |

| **Materion a Gadwyd yn Ôl** | |
|---|---|
| Cais i ddiddymu neu amrywio amod ar ôl rhoi caniatâd cynllunio | £230 |
| Cais i gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl ar ôl rhoi cymeradwyaeth amlinellol | Y ffi lawn yn ddyledus neu os yw'r ffi lawn eisoes wedi'i thalu, £460 yn ddyledus |

| **Newid Defnydd** Adeilad i Ddefnydd ar gyfer un tŷ annedd ar wahân neu fwy | | |
|---|---|---|
| Newid y defnydd o un annedd i'w defnyddio ar gyfer dwy annedd neu fwy | Dim mwy na 50 annedd | £460 ar gyfer pob un |
| | Mwy na 50 annedd | £23,000 + £120 ar gyfer pob un sy'n fwy na 50 hyd at uchafswm o £300,000 |
| Newid y defnydd o adeilad ar gyfer un annedd ar wahân neu fwy | Dim mwy na 50 annedd | £460 ar gyfer pob un |
| | Mwy na 50 annedd | £23,000 + £120 ar gyfer pob un sy'n fwy na 50 hyd at uchafswm o £300,000 |
| **Newid defnydd sylweddol arall** yng nghyswllt adeilad neu dir | | £460 |

Parhad ar y dudalen nesaf...

| Hysbysebu | |
|---|---|
| Yn gysylltiedig â'r busnes ar y safle | £120 |
| Blaen arwyddion nad ydynt wedi'u gosod ar y safle nac yn weladwy o'r safle, sy'n cyfeirio'r cyhoedd at fusnes | £120 |
| Hysbysebion eraill | £460 |

| Cais am Ddiwygiad Ansylweddol ar ôl Rhoi Caniatâd Cynllunio | |
|---|---|
| Ceisiadau mewn perthynas â datblygiadau deiliaid tai | £35 |
| Ceisiadau mewn perthynas â datblygiadau eraill | £115 |

| Ffioedd am Gyflawni Amodau | |
|---|---|
| Ceisiadau mewn perthynas â datblygiadau deiliaid tai | £35 |
| Ceisiadau mewn perthynas â datblygiadau eraill | £115 |

| CEISIADAU DRAWS FFINIAU |
|---|
| Pan fydd ceisiadau yn cael eu gwneud am ganiatâd cynllunio, i gymeradwyo materion sy'n cael eu cadw yn ôl neu ar gyfer tystysgrifau o ddefnydd cyfreithiol neu ddatblygiad sy'n gysylltiedig â thir yn ardal dau neu ragor o awdurdodau cynllunio, telir ffi i bob awdurdod cynllunio. Caiff y ffi sy'n daladwy ei gyfrifo yn y ffordd arferol. |

Parhad ar y dudalen nesaf…

| CONSESIYNAU |
|---|
| **Eithriadau Rhag Talu** |
| Ar gyfer addasiadau, estyniadau ac ati i dŷ annedd er budd person anabl |
| Cais ar gyfer cyflawni'r gweithrediadau at ddibenion darparu mynediad i bobl anabl i mewn i adeilad/safle neu o fewn adeilad/safle yn unig lle mae gan y cyhoedd yr hawl i gael mynediad iddynt. |
| Caniatâd Adeilad Rhestredig |
| Caniatâd Ardal Gadwraeth |
| Gwaith ar Goed a gaiff eu gwarchod gan Orchymyn Cadw Coed neu sy'n rhan o Ardal Gadwraeth Torri Perthi |
| Os bydd y cynnig yn gysylltiedig â gwaith sy'n gofyn am ganiatâd cynllunio yn rhinwedd Cyfarwyddyd Erthygl 4 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 yn unig. H.y. lle bo angen y cais dim ond am fod cyfarwyddyd neu amod cynllunio yn dileu hawliau datblygu a ganiateir. |
| Os yw'r cais ar gyfer tystysgrif datblygiad cyfreithlon, ar gyfer defnydd presennol, lle byddai cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer yr un datblygiad wedi'i eithrio rhag bod angen talu ffi gynllunio o dan unrhyw reoliadau ffioedd cynllunio eraill |
| Os yw'r cais ar gyfer caniatâd i ddangos hysbyseb naill ai yn dilyn tynnu cais cynharach yn ôl (cyn i'r hysbysiad o benderfyniad gael ei gyhoeddi) neu lle caiff y cais ei wneud yn sgil gwrthod caniatâd i ddangos hysbyseb, a lle caiff y cais ei wneud gan neu ar ran yr un person |
| Os yw'r cais ar gyfer caniatâd i ddangos hysbyseb sy'n deillio o gyfarwyddyd o dan Reoliad 7 o Reoliadau Rheoli Hysbysebion 1992, sy'n datgymhwyso caniatâd tybiedig o dan Reoliad 6 i'r hysbyseb dan sylw |
| Os yw'r cais ar gyfer cynigion amgen ar gyfer yr un safle gan yr un ymgeisydd, er mwyn elwa o hawl datblygu a ganiateir yn Atodlen 2 Rhan 3 Dosbarth E o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 |
| Os yw'r cais yn cynrychioli addasiad cyntaf cais am ddatblygiad o'r un cymeriad neu ddisgrifiad ar yr un safle gan yr un ymgeisydd (gan gynnwys caniatâd i arddangos hysbyseb os cafodd ei dynnu yn ôl neu ei wrthod):<br>• Cais sy'n cael ei dynnu yn ôl: O fewn 12 mis i ddyddiad derbyn y cais.<br>• Cais y gwnaed penderfyniad yn ei gylch: O fewn 12 mis i ddyddiad gwrthod y cais neu ddyddiad gwrthod apêl.<br>• Cais lle y cyflwynwyd apêl ar sail diffyg penderfyniad: O fewn 12 mis i'r cyfnod sydd wedi dod i ben ar gyfer rhoi gwybod am benderfyniad ynghylch y cais dilys cynharach. |

Parhad ar y dudalen nesaf…

| **CONSESIYNAU** parhad… |
|---|
| **Taliadau Gostyngol** |
| Os caiff y cais ei wneud ar ran clwb chwaraeon dielw ar gyfer gwaith yng nghyswllt caeau chwarae nad ydynt yn cynnwys adeiladau, yna £460 yw'r ffi |
| Os caiff y cais ei wneud ar ran cyngor plwyf neu gyngor cymuned, yna mae'r ffi 50% |
| Os yw'r cais yn gynnig amgen a gyflwynir ar yr un safle gan yr un ymgeisydd ar yr un diwrnod, lle bo'r cais hwn yn costio llai, yna mae'r ffi yn 50% |
| O ran materion a gadwyd yn ôl, mae'n rhaid i chi dalu swm sy'n gyfwerth â'r hyn a fyddai'n daladwy neu'n fwy na'r swm hwn ar y cyfraddau presennol ar gyfer cymeradwyo'r holl faterion a gadwyd yn ôl.  Os yw'r swm hwn eisoes wedi'i dalu, yna £460ŵ yw'r ffi |
| Os yw'r cais am Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer Defnydd arfaethedig neu ddatblygiad, yna mae'r ffi yn 50% |
| Os caiff dau gais neu fwy eu cyflwyno ar gyfer cynigion gwahanol ar yr un diwrnod ac mewn perthynas â'r un safle, yna mae'n rhaid i chi dalu'r ffi ar gyfer y ffi uchaf yn ogystal â hanner cyfanswm y lleill |

**DIWEDD**